5.19

# DYCHWELIAD YR AMEN.

Bu Seion yn cwyno yn welw ei gwedd,
A'i mynwes yn oerllyd a distaw fel bedd,
Tan wawd ei gelynion yn plygu ei phen
Bron tori ei chalon ar ol ei Hamen—
Ond diolch i Dduw mae'r Amen yn fyw
A diolch a'i dagreu mae Seion i Dduw.

Pan welwyd y deigryn ar rudd y "sêt fawr"
A deigryn o'r pwlpud yn syrthio i'r llawr
"Cwrdd naw" boreu Sabbath yn danllyd dros ben
Fe fethodd y nefoedd a chadw'r Amen,
O ddwyfol Amen ! adfywiol Amen
Mae deigryn mewn gweddi yn siwr o'i Amen,

Pan ddaeth yr Amen—daeth a llonaid ei chôl
O ddefaid colledig i'r gorlan yn ol,
Prif arwyr y gelyn yn Seion sy'n awr
Yn uwch eu Hamenau na chewri 'r Sêt Fawr
O swynol Amen ! nefolaidd Amen !
Byth mwyach yn Seion—O ! aros Amen.

O cofied ein Pwlpud a'n hanwyl Sêt Fawr
A'r seti sy'n orlawn o'r nefoedd yn awr,
Er cadw'r Amenau yn Seion yn fyw
*Yn daer yn y dirgel rhaid bod gyda Duw,*
Byw wnelo'r Amen, byw fydd yr Amen,
Ni wel tragwyddoldeb mo farw'r Amen.

1904.

GWYROSYDD
(Daniel James)

COPYRIGHT APPLIED FOR] [Jenkins a Hall, Mountain Ash

x 20521224 6